**Y CYNGOR**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.30 ar 23 Medi 2022, ym Mhantycelyn.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Ms Kate Eden; yr Athro Simon Green; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Ms Sharron Lusher; Dr Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards; Aisleen Sturrock, Llywydd UMAber; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Claire Vaughan; Dr William Williams; Ms Nicola Wood; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer Cofnod 13); Mr Mathew Norman (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio); Mr Gethin Rhys, Cofrestrydd Cyfadran; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus; Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd; Ms Kath Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kylie Evans.

**1. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Croeso

   1. Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Cyngor:

      1. Arwel Thomas, Aelod Annibynnol;

      2. Nicola Wood, Aelod Annibynnol;

      3. Claire Vaughan, sy'n aelod o is-bwyllgorau ers blwyddyn ac yn awr wedi ymuno'n ffurfiol â'r Cyngor; a

      4. Yn ei habsenoldeb, Kylie Evans, cynrychiolydd staff an-academaidd (a benodwyd tan 31 Gorffennaf 2024 yn lle Kath Williams).

   2. Roedd y rhai a benodwyd yn ddiweddar ar un o is-bwyllgorau'r Cyngor hefyd wedi eu gwahodd yn arsylwyr i'r cyfarfod o'r corff llywodraethu, sef:

      1. Mathew Norman, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch);

      2. Ellen ap Gwynn, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) (ddim yn bresennol, wedi anfon ymddiheuriad);

   3. Cafodd aelodau annibynnol presennol ar Is-Bwyllgorau hefyd wahoddiad i'r cyfarfod yn arsylwyr, er nad oeddent yn bresennol neu wedi cyflwyno ymddiheuriadau y tro hwn, sef:

1. Melanie Hamer, Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor Ll&Ch;

2. Jane Usherwood, Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor Ll&Ch; a

3. Charu Maini, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

2. Llongyfarchiadau

1. Llongyfarchwyd yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol ar ei ethol yn Gymrawd o Academi Frenhinol Peirianneg.

2. Yr Athro Peter Merriman, Athro Daearyddiaeth Ddynol, ar ei ethol yn Gymrawd o Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.

3. Y Dathliadau 150

Dywedwyd wrth yr aelodau bod gwahoddiadau i ddigwyddiadau i nodi 150 Mlynedd ar fin cael eu hanfon.

4. Graddau er Anrhydedd

Dywedwyd wrth yr aelodau am e-bost a anfonwyd allan Gwener 23 Medi 2022 yn gwahodd enwebiadau am raddau er anrhydedd, a chawsant eu hannog i ystyried unigolion nodedig y gellid eu henwebu am radd. Roedd y manylion llawn wedi'u cynnwys yn yr e-bost.

5. Y Graddio, y Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod Genedlaethol, a Dyddiau Strategaeth

Diolchwyd i gydweithwyr y Brifysgol am eu gwaith wrth drefnu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus dros yr Haf, a hefyd am drefnu'r Dyddiau Strategaeth yn mis Medi a oedd wedi rhoi cyfle gwerthfawr i fyfyrio ar amrywiaeth o faterion a heriau.

6. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Emeritws Paul Avtar Singh Ghuman, yr Ysgol Addysg; a

2. Tony Curwen, Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth.

7. Dull Cynnal y Cyfarfod

Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly’n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

**2. ARFARNIAD BLYNYDDOL AELODAU’R CYNGOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (COU2223-002)

NODWYD

1. Yn ystod mis Medi 2022, roedd Cadeirydd y Cyngor wedi cynnal cyfarfodydd arfarnu blynyddol gyda'r rhai a fyddai'n parhau yn aelodau o'r corff llywodraethu ym mlwyddyn academaidd 2022-23. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny, a'r camau gweithredu a gynigiwyd.

2. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gymryd rhan yn y broses, gan grynhoi'r prif bwyntiau a oedd yn cynnwys: bodlonrwydd â dull cynnal cyfarfodydd y Cyngor a'r is-bwyllgorau, croesawu ailddechrau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a chydnabyddiaeth i waith Swyddogion y Brifysgol wrth baratoi dogfennau er gwaethaf cyfanswm y gwaith papur hwnnw. Roedd yr aelodau wedi mynegi awydd i drefnu a rhaglennu sesiynau gwybodaeth ychwanegol gan roi cymaint â phosib o rybudd amdanynt.

3. Roedd y camau'n cynnwys sicrhau bod papurau'n cael eu cyflwyno mewn pryd a sicrhau bod cyfarfodydd gosod agenda a chyfarfodydd y Cadeirydd ar gyfer cyflwyno gwybodaeth yn cael eu trefnu ymlaen llaw am y flwyddyn academaidd gyfan.

4. Roedd cymeradwyaeth hefyd i wahodd aelodau'r Cyngor i gyfarfodydd y Senedd.

5. Cafwyd trafodaeth ddilynol ynglŷn â chyfleoedd i gael dealltwriaeth ddyfnach o ddiwylliant y sefydliad, a chytunwyd y dylid trefnu un cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Ll&Ch yn ystod 2022-2023 a chanolbwyntio'n benodol ar hynny. Nodwyd hefyd mewn ymateb i hyn y dylai trafodaeth am bobl a diwylliant gynnwys trafodaeth ynglŷn â grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar y corff llywodraethu.

**PENDERFYNWYD**

1. Trefnu cyfarfodydd gosod agenda a chyfarfodydd Cyflwyno Gwybodaeth am y flwyddyn academaidd gyfan [**GWEITHREDU:** Swyddog Llywodraethu].

2. Gwahodd aelodau'r Cyngor i arsylwi ar gyfarfodydd y Senedd yn ystod 2022-2023. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

3. Trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio yn ystod 2022-2023, a fyddai'n gyfarfodydd ag agenda un eitem yn canolbwyntio ar bobl a diwylliant [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**3. YMESTYN HYD TYMOR AR Y CYNGOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-003)

NODWYD

1. Ar ôl gwasanaethu ar is-bwyllgorau o 1 Awst 2018, dechreuodd Mark Tweed ei gyfnod ar y Cyngor ar 1 Ionawr 2020 am dair blynedd yn y lle cyntaf, yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Ym mis Mai 2020, diwygiwyd yr Ordinhadau a newidiwyd tymor Aelod Annibynnol o dair blynedd i bedair. (Ordinhad 09). Roedd Mark Tweed wedi derbyn cynnig anffurfiol i wasanaethu tymor pellach am gyfnod pedair blynedd.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo’n ffurfiol dymor pedair blynedd Mark Tweed ar y Cyngor, o 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2026, a rhoi gwybod i'r adran Adnoddau Dynol am hynny [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**4. YSGRIFENNYDD DROS DRO A CHYMORTH LLYWODRAETHU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-004)

NODWYD

1. Gwahoddwyd yr aelodau i nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni gwaith Ysgrifennydd y Brifysgol a dyletswyddau eraill i gynorthwyo llywodraethu wrth aros i Dr Gwawr Taylor ddod yn ôl i’r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth. Cytunodd Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd y Brifysgol i fod yn Ysgrifennydd Dros Dro o 30 Medi 2022 tan i Dr Taylor ddychwelyd. Byddai dyletswyddau rheoli pwyllgorau yn cael eu cyflawni gan gydweithwyr eraill yn y Gofrestrfa Academaidd, gyda chymorth gan y Swyddfa Gynllunio, y Swyddfa Gyllid, a Swyddfa'r Is-Ganghellor.

2. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai Helen Davies, Swyddog Llywodraethu, yn parhau’n brif gyswllt yn y Swyddfa Lywodraethu ac mai Ysgrifennydd@aber.ac.uk / Secretary@aber.ac.uk fyddai'r cyfeiriad gohebu o hyd.

**5. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2022 (COU2223-006).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**7. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2223-007).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

## 8. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

## 9. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2223-008)

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tair prif ran: adroddiad uchafbwyntiau, rhannau ohonynt wedi eu trafod yn y dyddiau Strategaeth blaenorol; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad cyfathrebu.

2. Nodwyd y ffigurau denu myfyrwyr a ragwelir ar hyn o bryd am 2022-23, ynghyd â'r goblygiadau i incwm y brifysgol; byddai'r nifer terfynol i'w cael yng nghyfrifiad 1af Tachwedd.

3. Ynglŷn â chyflog staff, nodwyd bod 55% o gostau'r sefydliad yn mynd i dalu cyflogau staff ond bod mwy a mwy o gostau eraill ac, uwchlaw popeth, incwm ffioedd sy'n sefydlog. Byddai darlun mwy cyflawn i'w weld erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

## 10. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2223-009).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Rhoddai'r adroddiad sylw i ymgyrch fawr dan arweiniad yr NUS ac i ymateb Undeb y Myfyrwyr i'r argyfwng costau byw. Roedd 77% o'r myfyrwyr a holwyd wedi nodi y byddai'r argyfwng yn effeithio arnyn nhw. Roedd yr NUS ac UMAber yn rhagweld trafferthion yn cadw myfyrwyr oherwydd pwysau ariannol ac amlinellwyd rhai mesurau lleol sy'n cael eu gweithredu i gynorthwyo myfyrwyr. Nododd y Cyngor y gwaith mae'r brifysgol yn ei wneud i liniaru rhai o'r costau, a phwysleisiwyd yr angen i'r sefydliad weithio gydag Undeb y Myfyrwyr ar y materion hyn.

## 11. MATERION STRATEGOL

1. Is-Strategaeth Academaidd cyfrwng Cymraeg

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Ddirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb sefydliadol am faterion academaidd cyfrwng Cymraeg (COU2223-010).

1. Yn dilyn cyfnod ymgynghori manwl, gan gynnwys ymgynghori ag aelodau'r corff llywodraethu, roedd yr Is-Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

2. Roedd yr Is-Strategaeth wedi'i seilio ar strategaethau allweddol eraill ac yn cysylltu'n uniongyrchol â hwy, gan gynnwys prif Gynllun Strategol y Brifysgol, Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, a'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu, yn ogystal â chyfeirio at gyfeiriad strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

3. Yn ganolog i'r Is-Strategaeth oedd nifer y myfyrwyr yn astudio o leiaf 5 o gredydau'r flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiodd Aelodau'r Cyngor bod angen parhau i roi pwyslais ar gyflwyno darpariaeth hyblyg i ateb anghenion amrywiaeth o ddarpar gymunedau myfyrwyr. Er enghraifft, gallai rhai ohonynt ddymuno peidio ag astudio neu gael eu hasesu'n gyfan gwbl trwy'r Gymraeg, ond i fod yn rhan o ddulliau gwahaniaethol o gyflwyno a darparu modiwlau.

4. Nodwyd gwall teipio ar Dudalen 10 a oedd yn cyfeirio at Addysg *Uwch* yn hytrach nag Addysg *Bellach*.

**PENDERFYNWYD**

5. Derbyn a chymeradwyo yn ffurfiol yr Is-Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg yn amodol ar fân ddiweddariadau, cywiriadau ac esboniadau ac i ddiolch i'r Athro Anwen Jones am ei gwaith yn cyflawni hyn.

6. Trefnu eitem ddilynol yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf i roi'r datblygiadau diweddaraf i'r Cyngor ar y cynnydd wrth gyflawni'r amcanion strategol [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

7. Ymgorffori unrhyw fân ddiwygiadau i'r ddogfen cyn ei chyhoeddi'n ffurfiol [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor, Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol].

2. <u>Dangosyddion Perfformiad Allweddol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Steve Walsh, Pennaeth Cynllunio (COU2223-011)

NODWYD

1. Derbyniodd y Cyngor y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Chwarter 4, gyda diweddariadau a gofnodwyd ers Chwarter 2 i'r incwm a'r cyllid ymchwil.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd. Tynnwyd sylw aelodau at ychydig o welliant i'r sefyllfa yn gyffredinol, ond bod trafferthion yn parhau yn achos dau fater; un ohonynt wedi ei gynnwys yn y drafodaeth yn ystod y Dyddiau Strategaeth (cyflogadwyedd), a'r llall y trafferthion parhaus ynghylch y Cynllun Cyfraniad Effeithiol.

3. Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor Ll&Ch ynglŷn â'r cyfraddau isel yn achos cwblhau'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

**12. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2223-012).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn disgrifio perfformiad ariannol y Brifysgol hyd at ddiwedd Chwarter 3 (30 Ebrill 2022).

1. Rhagwelwyd mai gwarged o tua £0.1m fydd canlyniad drafft y Brifysgol am 2021-22 a bod hynny'n unol â'r gyllideb a'r rhagolygon a adroddwyd yn flaenorol. Roedd hon yn sefyllfa ffafriol a diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'i dîm am eu hymdrechion i sicrhau sefyllfa ariannol y Brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

2. <u>Incwm Dangosol 2022-23</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU2223-013).

NODWYD

1. Roedd y papur a dderbyniwyd yn nodi asesiad dangosol o incwm y Brifysgol am 2022-23. Dywedwyd wrth yr aelodau bod cynnydd cyson o hyd yn nifer y myfyrwyr ond bod y rhagolwg diweddaraf yn wannach na'r gyllideb ac yn dangos diffyg o tua £1.5m o'i gymharu â'r gyllideb. Rhagwelir y bydd y 'bwlch' ariannol yn cael ei gau gan gyfres o gamau rheoli, a chafodd rhai ohonynt eu nodi ochr yn ochr ag adolygiad pellach o weithrediadau'r brifysgol. Byddai manylion llawn ac effaith cylch denu myfyrwyr 2022 yn hysbys ym mis Hydref/Tachwedd, ac yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

**13. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2223-017)

NODWYD

1. Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig yn dweud wrth yr aelodau am y datblygiadau ac yn nodi bod yr amgylchiadau presennol yn parhau i fod yn heriol oherwydd Cydsyniad Adeilad Rhestredig ac amodau cynllunio.

2. Nodwyd bod amserlen cwblhau pob cam mewn perygl ar hyn o bryd a bod costau'n debygol o gynyddu, oherwydd yr oedi wrth gael Cydsyniad ac oherwydd chwyddiant a'r pwysau economaidd mwy cyffredinol.

3. Dywedwyd bod ceisiadau am gyllid ychwanegol wedi'u cyflwyno a bod gweithio trwy'r cydsyniadau cynllunio yn dal yn flaenoriaeth i'r Brifysgol, mewn cydweithrediad agos â Chyngor Sir Ceredigion.

4. Cytunwyd y byddai diweddariad llawn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio, gan dynnu sylw yn arbennig at unrhyw beryglon cynyddol i agweddau ar y prosiect neu'r gyllideb gyffredinol.

**PENDERFYNWYD**

5. Paratoi diweddariad ysgrifenedig llawn i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2022 [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol].

## 14. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2223-014);

2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2223-015) a;

3. Yr Arolwg Gwella Ansawdd: Adroddiad ac Ymateb Terfynol (COU2223-016);

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

## 15. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

1. <u>Sesiwn Wybodaeth</u>

Dywedwyd wrth yr aelodau bod gwahoddiad e-bost wedi'i anfon i sesiwn cyflwyno gwybodaeth ar 25$^{fed}$ Hydref 2022 gan Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â Hanfodion Seiber/Cyber Essentials.

2. <u>Ffarwelio</u>

Diolchwyd i Kath Williams am ei gwaith yn Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro am y cyfnod ers Ionawr 2022. Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Kath yn ei swydd newydd ym Mhrifysgol Glasgow.